

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Mawrth 8, 2016 am 7.30 o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: John Hughes, Janet Edwards, Eirlys Roberts, Llinos Williams, Elfed ap Gomer, a Carwyn Evans. Hefyd Peredur Jenkins.

1. Ymddiheuriadau: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Gethin Williams (Is-gadeirydd), Gareth Ellis a Henry Edwards (Clerc).

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 9, 2016

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 9, 2016

Nid oedd materion yn codi

5. Materion Ariannol

Nodwyd derbyn y llythyrau canlynol o ddiolch:

- a. Llythyr oddi wrth Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch yn diolch am ein rhodd o £50.
- b. Llythyr oddi wrth Neuadd Bentref Bontddu yn diolch am ein rhodd o £50.
- c. Llythyr oddi wrth Age Cymru Gwynedd a Môn yn diolch am ein rhodd o £50.
- ch. Llythyr oddi wrth Marie Curie yn diolch am ein rhodd o £50.
- d. Llythyr oddi wrth GISDA yn diolch am ein rhodd o £50.
- dd. Llythyr oddi wrth Cylch Meithrin Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £50.
- e. Llythyr oddi wrth Cyngor ar Bopeth Gwynedd a De Ynys Môn yn diolch am ein rhodd o £100.
- f. Llythyr oddi wrth Canolfan Therapi Plant Cymru yn diolch am ein rhodd o £50.
- ff. Llythyr oddi wrth Sioe Frenhinol Cymru 2016 – Apel Cylch Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £50.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MAWRTH 8, 2016

g. Llythyr oddi wrth Ambiwlans Cymru yn diolch am ein rhodd o £300.

Cwestiynwyd cywirdeb y swm yn b)

h. Bil am £82.47 oddi wrth Dŵr Cymru i dalu am wasanaethu Toiledau Cyhoeddus Bontddu. Mae'n cael ei dalu drwy DU. (Nodwyd fod y bil am yr un cyfnod y flwyddyn ddiwethaf yn £134.61).

j. Derbyniwyd siec am £100.00 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. at daliad i osod beddfaen ar y diwedd ar Corinne Marjorie Hill.

i. Balans yn y banc ar 29 Chwefror 2016: £7,351.43.

6. Mynwent Llanelltyd

Tynnwyd sylw at y blerwch o gwmpas bedd y diwedd ar John Leeds. Ymddengys fod pobl yn taflu eu hen flodau yno yn hytrach na mynd â nhw i'r man priodol.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/65/AD339. Cais am ganiatâd i arddangos 3 arwydd (1 ar y ffordd yn arwain o'r cyffordd a'r A496 i'r Tollbont, 1 ochr Llanelltyd o'r Dollbont, ac 1 ar ochr Llyn Penmaen y Tollborth. Tir ger Tollborth Llyn Penmaen.

Penderfynwyd nad oedd digon o wybodaeth i ddod i farn.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd yn gwahodd aelodau Cyngorau Cymuned a Thref i gyfarfod i drafod:

1. toriadau i wasanaethau fydd yn cael eu gwneud gan Gyngor Gwynedd a'r goblygiadau fydd y rhain yn eu cael yn ein hardal;
2. diweddarau aelodau o'r gwaith sy'n mynd ymlaen o gefnogi Cyngorau sydd â diddordeb mewn cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau,
3. cefnogaeth sydd ei angen i hwyluso'r gwaith uchod.

Mae'r cyfarfod oherwydd yr her sy'n wynebu Cyngor Gwynedd gyda thoriadau i wasanaethau bydd yn cael eu rhoi ger bron y Cyngor Llawn am benderfyniadau ar 3 Mawrth 2016. Bydd y cyfarfod yn Ysgol y Gader, Dolgellau (lle agosaf) ar 1/3/2016 am 6.00yh. Maent eisiau gwybod pwy fydd yn mynychu'r cyfarfod cyn 19/2/2016. Rhoddwyd gwybod am y cyfarfod i'r aelodau ar Chwefror 10, 2016.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MAWRTH 8, 2016

Adroddodd y Cyng. Peredur Jenkins ar brif effeithiau'r toriadau. Mynegodd fod gwasanaethau'n siŵr o ddiodeff, ond nad oes fawr mwy y gall y Cyngor hwn ei wneud nad yw'n ei wneud eisoes.

b. Lythyr oddi wrth Swyddfa'r Ombwdsmon. Maent yn rhoi gwybod fod copi o Egwyddorion Gweinyddu Da a Rheoli Cofnodion yn Dda ar gael ar eu gwefan.

c. Llythyr oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol. Mae eu hadroddiad blynyddol 2016/17 ar gael ar eu gwefan.

ch. Galwad ffôn oddi wrth Adran Iechyd a Diogelwch, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod fod angen tynnu braced neu roi mainc newydd yn y Lloches Bws yn Llanelltyd. Mae yn beryg fel y mae.

Penderfynwyd gofyn i W.R. Evans & Fab wneud y gwaith. (Awgrymodd y Cyng. P.J. y dylai'r Cyngor ystyried penodi un o'r aelodau i archwilio eiddo'r cyngor bob hanner blwyddyn o ran Iechyd a Diogelwch a chofnodi'r canfyddiadau.

d. Llythyr oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod eu bod am ail-wynebu'r A470 o gylchfan Llanelltyd at Eglwys St. Illtyd.

dd. Llythyr oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Cyllid Llywodraeth Leol ar ddydd Mawrth 22/3/2016 yn Llyfrgell Rhydd, Dolgellau am 6.30. Cost y cwrs yw £35 y person.

e. Llythyr oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Dealltwriaeth o'r Gyfraith ar ddydd Mawrth 12/04/2016 yn Theatr y Ddraig, Abermaw am 6.30. Cost y cwrs yw £35 y person.

f. Ffurflen oddi wrth Tower Mint Ltd yn rhoi cynnig i archebu medal i ddathlu pen-blwydd Ei Mawrhydi Elizabeth yn 90 oed. Amgaewyd sampl o'r fedal.

ff. Llythyr oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd y pris i lenwi un bin halen yn £156, y pris i lenwi 3 neu fwy o finiau halen yn £80 y bin. Bydd y Cyngor Cymuned yn rhoi gwybod i'r Swyddog Cyswllt pa finiau i'w llenwi. Bydd pob bin yn cael ei archwilio a'i lenwi cyn tymor y gaeaf 2016.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Esboniodd fod y gwaith sy'n cael ei wneud wrth Borthwnog er mwyn creu gwter newydd fydd yn diwallu'r angen mae'r glaw cyson wedi'i amlygu.

Nododd fod contractwyr wedi'u penodi ar gyfer ehangu Ysgol Llanelltyd. Bydd y gwaith yn cychwyn ar unwaith er mwyn gorffen erbyn 2017. Ymddengys fod y cabanau dros dro'n gweithio'n dda.

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd peidio â thrafod unrhyw fater yn absenoldeb y Clerc. Dymunwyd wellhad buan iddo.